# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion Cyfarfod Nos Fercher – 08.11.23 – 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** David Griffiths – Chairman (DG), Geraint Edwards – Vice Chair (GE), Keith Carroll (KC) Jane Lawrence (JL), Nicola Roberts (NR), Ian Williams (IW), Huw Davies (HD), Jenny Warne (JW), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Geraint Micah, Meg Griffiths, Louise Hughes – Cynghorydd Sirol.

2. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb: Dim**

- **Grŵp Gweithredu Ysbyty Tywyn**

Roedd cynrychiolwyr o'r Grŵp wedi dod i'r cyfarfod i roi diweddariad i aelodau'r Cyngor Cymuned ac annog eu presenoldeb yn y cyfarfod cyhoeddus a oedd wedi ei drefnu at 21.11.23 am 7 o'r gloch, yn Nhywyn, pan fyddai nifer o uwch swyddogion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn bresennol i drafod y sefyllfa.
Cadarnhawyd fod y ddeiseb wedi cyrraedd 5,500 o lofnodion ac wedi cael ei thrafod yn y Senedd.
Fodd bynnag, roedd y Senedd wedi gofyn am gyfarfod cyhoeddus ac ymateb gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr cyn gallu ystyried y mater.
Roedd siart wedi'i lunio yn cymharu gwasanaethau/clinigau oedd yn cael eu cynnal yn yr Ysbyty yn 2017 ac yn bresennol, pan ddangoswyd fod y gwahaniaeth yn sylweddol.
Roedd materion staffio yn dal i fod yn broblem ond roedd y wybodaeth ddiweddaraf yn dangos fod cynnydd yn y nifer o staff newydd eu hangen.
Roedd cynigion da wedi eu derbyn ynglyn a llety ar gyfer darpar staff, ond oedd yr ymgeiswyr yn ymwybodol o hyn ?
Roedd yn amlwg fod angen atebion i lawer o gwestiyniau yn y cyfarfod.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **11.10.23** yn gywir.
   **Cynnig:** JW **Eiliwyd:** GE **Arwyddwyd:** David Griffiths.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 11.10.23:**

   a) **Llwybr Cyhoeddus /Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – Trafodwyd e-bost dyddiedig 23.10.23.
   Byddai llwybr i'r traeth gyda "llwybr cyhoeddus caniataol" yn gam ymlaen, ond nid oedd yn newid y ffaith bod ffordd ddiddosbarthiedig yna ar un adeg.
   **Penderfyniad** - JJ i ysgrifennu yn ôl at Gyngor Gwynedd yn gofyn am ymchwiliad pellach i lle mae aliniad gwreiddiol y ffordd ddiddosbarthedig, ond hefyd yn gofyn lle fyddai'r llwybr i'r traeth yn cael ei osod, os mai dyna'r unig opsiwn.
   Mater yma i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf, pan fydd Geraint Micah yn bresennol.

   b) **Wal Derfyn Llwyngwril/Friog** – cadarnhaodd JJ ymateb yr Ombwdsmon.
   Awgrymwyd y dylai unigolion gyflwyno cwynion.
   Mewn perthynas â'r gwaith ar yr A493 - i fod i ddechrau ar y 13.11.23 - gan fod neb yn gwybod pa waith oedd i gael ei wneud, gofynnodd yr aelodau i JJ wneud ymholiadau i gadarnhau y sefyllfa.

   c) **Cais Cynllunio NP/69/56M (Sunbeach)** – Cafwyd diweddariad gan JJ.
   HD ddim yn fodlon ar gyfarfod "Zoom" ac ar ôl peth trafodaeth, cytunodd pawb yr hoffent i David Pryce Jones fynychu'r cyfarfod nesaf, wedi'i baratoi'n llawn gydag atebion i'n llythyr gwreiddiol dyddiedig 15.07.23.
   JJ i ysgrifennu eto at David Pryce Jones yn ei hysbysu o hyn.

   d) **Japanese Knotweed** – JJ yn rhoi gwybod am ymateb Cath Severns ac ar ôl peth trafodaeth fe fu cytuno y dylai IW a KC sefydlu is-bwyllgor ynghyd â Cath Severn i ddelio a'r mater hwn.
   JJ i ysgrifennu a chynghori Cath Severn. **Cynnig:** KC **Eilio:** GE.

e) **ROSPA:** Cadarnhaodd GE fod HD ac yntau wedi gorchyddio y safle lle dylai'r Spica sefyll yn y Cae Chwarae, ac wedi gwneud y safle yn ddiogel.
GE wedi derbyn dyfynbris cystadleuol am offer (Spica) newydd (£1,189), pris yma yn cynnwys ei ffitio a TAW.
Cytunwyd i archebu Spica newydd i'w osod yn y cae chwarae.
JJ i archebu'r offer ac hefyd i archebu 6 x bolt, a capiau bolt plastic.
**Cynnig:** HD **Eilio:** GE. Dim diweddariad pellach ar y matiau diogelwch ar hyn o bryd.

f**)** **Ceg yr Afon – Llwyngwril** – dychwelodd JJ y ddogfen i HD. Cysylltwyd â Chyngor Gwynedd mewn perthynas â chymorth gyda chostau, ond dim ymateb hyd yn hyn.

5. **<u>Gohebiaeth wedi eu derbyn:</u>**
   a) **Pibell Garthffosiaeth, Afon Gwril ger y Bont Goch** – Dim byd pellach i'w wneud ar ol derbyn llythyr gan Dwr Cymru, er bydd y Cyngor Cymuned yn parhau i fonitro'r bibell a'r ardal o'i chwmpas.
   b) **Dail Dysynni –** Llythyr wedi ei dderbyn yn diolch am y rhodd o £50.00 gan y Cyngor Cymuned.
   c) **Lwfansau Gwaith Cartref i Gynghorwyr** – Mynegodd pob Cynghorydd ddymuniad i ildio unrhyw daliad.

6. **<u>Materion Cynllunio:</u>**
   • **NP5/69/LB157G a NP5/69/113U –** Llanfendigaid, Rhoslefain **–** dim gwrthwynebiad i'w cyflwyno.
   Datganodd DG fuddiant gan ei fod yn gwneud gwaith i'r perchnogion a gadawodd yr ystafell yn ystod y trafodaethau. Cwblhawyd hysbysiad o fuddiant personol.

7. **<u>Adroddiad Ariannol</u>:**
   a) Adroddiad Ariannol Mis Hydref 2023 – wedi ei gymeradwyo yn gywir.
   **Cynnig:** IW **Eiliwyd:** GE **Arwyddwyd:** David Griffiths.

   b) **Taliadau -** Tair siec i'w harwyddo. Cyflog a chostau'r Clerc (JJ), Treth incwm HRMC, David Griffiths am strimio - (siec yn y cyfarfod a derbynneb i'w ddarparu). Cynghorodd JJ fod banc Nat West yn codi 70c am bob siec nawr a byddai'r taliadau hyn yn dechrau dangos ar y datganiad banc nesaf.

8. **<u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>**
   Adroddodd DG ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Ganolfan. Cadarnhawyd mae Dilys Williams ydi'r ysgrifenyddes newydd, a Huw Davies ydi Cadeiryd newydd Pwyllgor Y Ganolfan. Cafwyd drafodaethau ynglyn a'r Swyddfa Bost yn y Ganolfan, hefyd roedd mwy o angen ceisio annog bobl i ddefnyddio'r Ganolfan a falla creu mwy o hysbysebu gyda phosteri ac ati. Cafwyd drafodaeth hefyd am eitemau yn mynd ar goll o'r Ganolfan.

9. **<u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>:** Dim yn bresennol.

10. **<u>Unrhyw Fater Arall</u>**

   • **Coed Nadolig** – Emlyn a Kieran Roberts wedi cytuno i gyflenwi coed ar gyfer Llwyngwril a Rhoslefain. Dyddiad i'w gytuno ond o bosib 03.12.23. DG i gysylltu'n uniongyrchol ag Emlyn Roberts.
   • **Cae Chwarae** – awgrymodd NR y byddai **"Nest Swing"** yn offer da i'r cae chwarae yn Llwyngwril. JJ i gysylltu a ROSPA am fwy o wybodaeth ynglyn a'r offer yma a gweld os ydi'r safle presennol yn dderbynniol i allu cynnwys Nest Swing?
   • **Gliniadur y Cyngor Cymuned** – ddim yn gallu agor Zoom na Teams ar hyn o bryd ac yn araf ar y cyfan. Roedd gliniadur newydd ar gyfer cyfarfodydd, a defnydd y Clerc, wedi ei gynnwys o fewn y gyllideb diwethaf. Ymholiadau pellach i'w gwneud a'r y pecynnau mwyaf addas sydd ar gael.
   • **Arwyddion ar y Bont** – cododd KC y mater bod un o'r arwyddion ger y bont yn Llwyngwril, yn hongian ar ongl. Cytunodd DG i siarad gyda Sion Wilkes, am gael ei atgyweirio.
   • **Sul y Cofio** – DG fydd yn gyfrifol am osod y "wreath" yn ngwasanaeth Sul y Cofio, ar ran y Cyngor Cymuned.
   • **Peintio Llinellau –** llinellau melyn dwbl a llinellau gwyn ar y meysydd parcio yn y pentref, yn dal heb eu paentio – JJ i gysylltu a Chyngor Gwynedd eto mewn perthynas â'r gwaith yma.
   • **Archwiliadau 21/22 a 22/23** – Cadarnhaodd JJ fod yr archwiliadau wedi pasio a bod tystysgrifau wedi'u cyhoeddi.
   • **Cyfarfod** - cadarnhaodd JJ ei bod yn cyfarfod â Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Eryri am 2.30pm – 21.11.23.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Nos Fercher - 13.12.23 - am 7o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd** ………………………………………………………………………………………… **Dyddiad** ………………………………